**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Iarll Kinnoull
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi

15 Gorffennaf 2021

Annwyl Arglwydd Kinnoull

Cynulliad Partneriaeth Seneddol rhwng y DU a'r UE

Mae Pwyllgorau'r Senedd bellach wedi'u sefydlu yn dilyn Etholiad Cyffredinol y Senedd ym mis Mai. Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn cyflwyno fy hun fel Cadeirydd newydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd. Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am rai o'r swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Bumed Senedd. Mae hyn yn cynnwys gwaith ymgysylltu'r Senedd â'r Undeb Ewropeaidd, a gwaith craffu cyffredinol ar y berthynas rhwng y DU a'r UE.

Rwy'n ymwybodol bod Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi dechrau sgyrsiau â chi ynghylch rôl bosibl i'r deddfwrfeydd datganoledig yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol rhwng y DU a'r UE. Yn fy rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor newydd, byddwn yn croesawu'r cyfle i ailddechrau'r sgyrsiau hynny gyda chi a Syr Oliver Heald. Rwyf wedi ysgrifennu at Syr Oliver ar wahân ynglŷn â'r mater hwn.

Ar ben hynny, fel cyn-aelod o'r Pwyllgor blaenorol, rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y berthynas waith agos a gafodd ei datblygu rhwng y Pwyllgor hwnnw a'r pwyllgorau a oedd yn ymdrin â materion Ewropeaidd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Edrychaf ymlaen at barhau â'r gwaith pwysig hwn gyda chi yn y Chweched Senedd.

Gwn y bydd y mater hwn o ddiddordeb hefyd i gydweithwyr yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban. Rwyf felly wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Colin McGrath MLA, Cadeirydd Pwyllgor y Swyddfa Weithredol yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon; a Clare Adamson MSP, Cynullydd Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant yn Senedd yr Alban.

Rwyf wedi gofyn i Glerc y Pwyllgor gysylltu â'ch swyddfa er mwyn hwyluso cyfarfod, pe byddech o’r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd